

Parc Gwledig

Loggerheads

Country Park

Llwybr Pen y Clogwyn
a Llwybr Glan yr Afon
Cliff Top Trail & Riverside Trail









Croeso i Barc Gwledig Loggerheads

Porth i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd.

Mae pobl leol ac ymwelwyr yn meddwl y byd o Loggerheads. Bu pobl yn mwynhau dod yma am dro ers dros ganrif.

Mae Llwybr Pen y Clogwyn yn daith gylch sy'n rhedeg am filltir a hanner ar hyd glannau Afon Alun, trwy goetir dymunol ac i ben y clogwyn calchfaen o ble y cewch fwynhau golygfeydd gwych o Foel Famau.

Mae Llwybr Glan yr Afon yn ddolen hanner milltir sy'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn a choetshus babanod, ar hyd yr afon trwy ddyffryn ir a choediog Alun.

Welcome to Loggerheads Country Park

Gateway to the Clwydian Range Area of Outstanding Natural Beauty.

Loggerheads is loved and cherished by locals and visitors and has been a favourite beauty spot for over a 100 years.

The circular Cliff Top Trail takes you on a $1^1/_2$ mile stroll along the River Alyn, through rich woodland and onto the limestone cliffs with amazing views across to Moel Famau.



The Riverside Trail is a $^1/_2$ mile loop, suitable for wheelchairs and pushchairs, along the river through the lush wooded Alyn Valley.

Newid gyda'r oes

Mae llawer o bobl wrth eu bodd ag awyrgylch di-amser Parc Gwledig Loggerheads. Ond mae'r dirwedd yn newid yn barhaus - ac mae wedi bod yn gwneud hynny ers miliynau o flynyddoedd!

350 miliwn o flynyddoedd yn ôl, roedd Loggerheads mewn môr cynnes trofannol filoedd o filltiroedd o'r fan hyn.

20,000 o flynyddoedd yn ôl, roedd Loggerheads o dan haenen drwchus o rew.

200 mlynedd yn ôl, roedd Loggerheads yn ardal ddiwydiannol brysur. Cafodd miloedd o dunelli o blwm a sinc eu cloddio yma yn y 18fed a'r 19eg ganrif.

Erbyn y 1920au, roedd pobl yn dod i Loggerheads ar deithiau bws o Lerpwl.

Erbyn heddiw, mae pobl yn mwynhau creigiau mawreddog Parc Gwledig Loggerheads, ei hanes diddorol a'i fywyd gwyllt pwysig. Mae'r gwasanaeth cefn gwlad, gyda chymorth gwirfoddolwyr, yn gweithio'n galed i sicrhau bod y Parc yn dal yn lle arbennig ar gyfer bywyd gwyllt a phobl i'r dyfodol.

Changing times

Many people love the timeless atmosphere of Loggerheads Country Park. But this a landscape that is constantly changing - and has been doing so for millions of years!

350 million years ago Loggerheads lay in a warm tropical sea thousands of miles from here.

20,000 years ago Loggerheads was under a thick sheet of ice.

200 years ago Loggerheads was a busy industrial area. Thousands of tons of lead and zinc were mined here in the 18th and 19th centuries.

By the 1920s Loggerheads had become **the** destination by bus from Liverpool.

Today Loggerheads Country Park is enjoyed for its dramatic rocks, vibrant history and important wildlife. The countryside service, with the help of volunteers, work hard to ensure the park remains a special place for future wildlife and visitors.



Crwydro ymhellach…

Mae Parc Gwledig Loggerheads ym Mryniau Clwyd. Daw llu o bobl i grwydro a mwynhau'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Ceir cadwyn o gopaon, llawer ohonynt mewn gwisg borffor hardd o rug, ac arnynt nifer o fryngaerau gyda'r mwyaf trawiadol ym Mhrydain. Mae Twr y Jiwbilî yn sefyll ar ben Moel Famau, sef y man uchaf ym Mryniau Clwyd, ar uchder o 554m. Parciau Gwledig Loggerheads a Moel Famau yw calon Bryniau Clwyd ac mae Llwybr Clawdd Offa yn rhedeg o'r naill ben i'r llall.

Cewch wybodaeth am wahanol ffyrdd o fwynhau Bryniau Clwyd a'r wlad o'u cwmpas yng Nghanolfan Bryniau Clwyd.

Explore further…

Loggerheads Country Park lies within the Clwydian Range. There are many opportunities to enjoy and explore this Area of Outstanding Natural Beauty. The unmistakable chain of summits, many clad in purple-heather moorland, is topped by Britain's most dramatically situated hillforts. The historic Jubilee Tower, stands at the top of Moel Famau at 554m, crowning the highest point in the Clwydian Range. Loggerheads and Moel Famau Country Parks form the heart of the Range, while the Offa's Dyke Path National Trail runs along the entire length of the Range.

Visit the Clwydian Range Centre for information about where and how to enjoy the Clwydian Range and surrounding countryside.

loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk
☎ 01352 810614
www.denbighshirecountryside.org.uk
www.ahnebryniauclwyd.org.uk
www.clwydianrangeaonb.org.uk
www.visitclwydianrange.co.uk

Synhwyrau a thymhorau

Mae digon i'w weld, ei glywed, ei arogli a'i gyffwrdd yn Loggerheads ym mhob tymor. Os dewch yma ar wahanol adegau o'r flwyddyn, byddwch yn siwr o ddod ar draws rhywbeth newydd.

Senses and seasons

Loggerheads will delight your senses with sights, sounds, smells and touch all through the year. Keep visiting throughout the year and enjoy the special treats of each season.

Y Gaeaf

Dyma adeg ardderchog i weld adar yn y coed noeth yn pigo hadau ac aeron iorwg.

Blaguryn onnen
Ash bud

Mae bronwennod y dŵr yn hela yn rhuthr yr afon lawn, eirlysiau'n ymwthio trwy'r ddaear galed, blagur duon melfedaidd yr onnen yn disgwyl am y gwanwyn ac olion traed anifeiliaid i'w gweld yn yr eira. Mae'r ddaear rewllyd yn sgleinio yn yr heulwen isel a llu o ymwelwyr llwglyd yn gwledda ar y bwrdd adar.

Winter

A great time of the year to see birds in the skeleton trees feeding on seeds and ivy berries. Dippers hunt in the full flowing river while snowdrops, velvety black ash buds and animal tracks stand out in the snow.

Ice crystals sparkle in the low sunlight and the bird table has flocks of hungry visitors.



Blodyn y gwynt
Wood anemone

Cwlwm cariad
Herb paris

Y Gwanwyn

Daw egin newydd i'r golwg a chawn groesawu llygaid Ebrill a briallu cynnar wrth i ddail ifanc y rhedyn ymagor yn yr haul gwanllyd. Gwelwn y glöynnod byw cyntaf a chroesawu'r siff-saffod â'u cân gyfoethog yn ôl i'r fro. Mae arogl cryf garlleg gwyllt i'w glywed yma a thraw a daw clychau'r gog yn garped ar lawr a blodyn prin cwlwm cariad i flodeuo.

Gwybedog brith
Pied flycatcher

Spring

New shoots emerge, revealing lesser celendines and early primroses and fern fronds unfurl in the pale sunlight. The first butterflies appear and the chiff-chaffs return with their vibrant song. The pungent scent of wild garlic infuses the air while delicate bluebells emerge and the rare herb paris begins to flower.

Yr Haf

Mae 'na garnifal o liwiau wrth i flodau melyn, porffor a glas fywiogi'r clogwyni.

Mae'r glaswelltydd main yn dawnsio yn yr awel a'r glöynnod byw a'r gwenyn yn chwilota am neithdar.

Mantell paun
Peacock butterfly

Weithiau, cewch gip ar wiber brin yn gorwedd yn llonydd yn yr haul gan adfer ei nerth ar gyfer sesiwn hela'r noson. Codwch eich llygaid i weld bwncathod yn hedfan yn urddasol a gwyliwch ystlumod yn hela'n isel dros yr afon ar nosweithiau llonydd.

Summer

A riot of yellow, purple and blue flowers carpet the cliff tops. Sunlight catches the delicate grasses and butterflies and bees search for nectar.

Gwiber
Adder

Reptiles such as the rare adder bask in the sun, recharging their energy for the evening hunt. Buzzards soar above the trees and bats hunt low over the river on still evenings.

Pig yr aran ruddgoch
Bloody cranesbill

Yr Hydref

Yn yr hydref, mae dail y coed yn newid eu lliw o'r naill ddiwrnod i'r llall. Daw adar ac anifeiliaid i gasglu aeron y ddraenen wen, eirin tagu, hadau a chnau i'w cadw ar gyfer y gaeaf. Gwelwch niwl y bore'n codi'n glytiau a barrug cynnar yn disgleirio yn y glaswellt wrth i bincod hela. Mae sgrech y coed yn casglu cnau a'r dringwr bach yn dringo coed yn chwilio am bryfetach yn y rhisgl. Caiff plant chwarae yn y carped trwchus o ddail llwgar, crensiog.

Autumn

The incredible colours of the autumn leaves continually change. Birds and animals gather hawthorn berries, sloe berries, nuts and seeds to store for winter. Mists and early frosts glitter in the grass while finches hunt. Jays collect nuts, and tree creepers creep up trees searching for insects and bugs in the bark. Children play in the thick layer of crunchy colourful leaves.

Cap inc carpiog
Shaggy inkcap



Mochyn daear
Badger

Coch y berllan
Bullfinch

Mae Loggerheads mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardal Cadwraeth Arbennig gan fod y cynefinoedd, y bywyd gwyllt a'r ddaeareg o bwysigrwydd rhyngwladol.

Loggerheads is within a Site of Special Scientific Interest and a Special Area of Conservation because its habitats, wildlife and underlying geology are internationally important for conservation.

Gallwch gyrraedd **Ceunant y Cythraul** trwy ddilyn Llwybr y Lît, sydd heb wyneb caled, o'r Parc am ryw hanner milltir, tua hanner awr o gerdded hamddenol.

The dramatic **Devil's Gorge** can be visited by following the unsurfaced Leete Path out of the Park for about 1/2 mile/hour.

Mae'r **onnen,** y **dderwen** a'r **llwyfen lydanddail** yn ffynnu yma ac yn tyfu'n naturiol yn y priddoedd calchog. Plannwyd coed eraill, fel y ffawydden a'r llarwydden, i gynhyrchu pren. Ceir digonedd o goed sycamor yma ac mae angen rheoli'r coed yn ofalus i gadw'r cydbwysedd cywir yn y coetir arbennig hwn.

Ash, oak and **wych elm trees** thrive here and grow naturally on the lime-rich soils. Other trees such as beech and larch were planted as a timber crop. Sycamore trees are plentiful and careful management is needed to keep the balance right in this special woodland.

Bôn-docio. Caiff rhannau o'r coetir eu torri gan wirfoddolwyr mewn trefn dros nifer o flynyddoedd i greu ardal sy'n addas ar gyfer amrywiaeth o fywyd gwyllt. Defnyddir y coed a dorrir i lunio ffensys yn y parc.

Coppicing. A section of woodland is cut down by volunteers in sequence over a number of years to create a mosaic of woodland for wildlife. The cut wood is used to weave fences in the park.

Yn yr haf, mae **llennyrch y coed** yn llawn bywyd, gyda sioncod gwair, gwenyn a glöynnod byw fel y brithribin gwyrdd a'r gwibiwr brith sy'n eitha prin.

Woodland glades are buzzing in summer, with grasshoppers, bees and butterflies such as green hairstreaks and the rare grizzled skipper.

Gwibiwr brith
Grizzled skipper

Mae **coed a changhennau marw** yn gynefinoedd gwych ar gyfer gwahanol fathau o bryfetach a ffyngau. Maent hefyd yn gysgod ar gyfer anifeiliaid bach ac yn lle i adar nythu.

Dead trees and branches are fantastic habitats for many different kinds of insects and fungi. They also provide cover for small mammals and nesting sites for birds.

Cedwir y **glaswelltir calchfaen** ar ben y clogwyn yn fyr ac yn ddi-brysgwydd gan gwningod a gwirfoddolwyr ac mae hyn yn helpu blodau gwyllt hardd a liwgar fel gruw gwyllt, troed yr iâr a'r cor-rosyn i ffynnu.

Limestone grassland on top of the cliffs is kept short and scrub-free by rabbits and volunteers, which helps the beautiful and colourful wildflowers like wild thyme, bird's foot trefoil and rock rose to thrive.

Mae **Pig yr Aran Ruddgoch** yn un o flodau gwyllt harddaf Loggerheads. Yn yr hydref, mae'r dail yn goch ac yn debyg i big garan neu grychydd.

Bloody Cranesbill is one of Loggerheads' most dramatic wildflowers. Its name describes its red autumn leaves, not the purple flowers!

Anghydfod dros hawliau mwyngloddio a roddodd yr enw Loggerheads i'r Parc. Mae **Carreg Carn March Arthur** yn garreg derfyn sy'n nodi ffiniau'r siroedd a elwir erbyn hyn yn Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Codwyd y plac uwchlaw'r garreg ar ôl i'r anghydfod gael ei ddatrys ym 1763. Dywedir bod ôl carn ceffyl y Brenin Arthur ar y garreg ar ôl iddo neidio o ben Moel Famau!

A dispute over mining rights gave the Park the name Loggerheads. **Carreg Carn March Arthur** is a boundary stone marking the borders of the counties now called Flintshire and Denbighshire. The plaque above the stone was erected following the resolution of the dispute in 1763. The stone is said to bear the hoof print of King Arthur's horse, following a leap from Moel Famau!



Mae Afon Alun yn llifo trwy'r dyffryn dwfn hwn ar ei ffordd i ymuno ag Afon Dyfrdwy ger Wrecsam. Fel llawer o afonydd sy'n llifo dros galchfaen, mae Alun yn sychu weithiau pan fydd dŵr yn brin. Mae'r afon yn diflannu o dan y ddaear, trwy lyncdyllau i ogofâu ac afonydd tanddaearol dwfn.

The River Alyn runs through this deep valley on its way to join the River Dee near Wrexham. Like many rivers over limestone, the Alyn sometimes dries up when river water flow is low. The river disappears underground, through swallow holes, down to underground caves and rivers deep below in the limestone.

Bronwennod y dŵr
Dipper

Gwelir **bronwennod y dŵr** yn hela ymhlith cerrig mawr yr afon. Gwyliwch nhw'n gwneud eu ffordd i fyny'r afon gan chwilio am bryd blasus.

Dippers hunt among the rocks along the river. Watch them working their way upstream, bobbing up and down, seeking tasty morsels.

Mae Llwybr y Lît yn dilyn sianel ddŵr a luniwyd ym 1824 i osgoi'r llyncdyllau yn yr afon a sicrhau cyflenwad parhaus o ddŵr i'r olwynion dŵr ar hyd y dyffryn. Roedd yr olwynion hyn yn gyrru pympiau a oedd yn draenio dŵr o'r cloddfeydd.

The Leete Path follows the route of a man-made water channel that was built in 1824 to bypass the swallow holes in the river and maintain a constant supply of river water to the waterwheels along the valley. The waterwheels drove pumps which drained water from the mines.

Ffosil braciopod
Brachiopod fossil

Mae **clogwyni calchfaen** yn ymgodi'n uchel uwchlaw llwybr glan yr afon. Yn y calchfaen carbonifferaidd, mae olion ffosiledig miliynau o greaduriaid y môr a oedd yn byw yma 350 o filiynau o flynyddoedd yn ôl.

Limestone cliffs tower above the footpath beside the river. This Carboniferous limestone has the fossilized remains of millions of marine animals that lived here 350 million years ago.

Agorwyd **gerddi te** ger Afon Alun ym 1926 gan y Crosville Bus Company a buont yn trefnu tripiau siarabáng yno o Lerpwl.

The Crosville Bus Company opened the **tea gardens** beside the River Alyn in 1926, as a destination for their charabanc trips from Liverpool.

Mae **melin ddŵr Pentre** dros 200 oed. Dros y blynyddoedd bu'n gyrru peiriannau a oedd yn malu grawn yn flawd, yn torri coed ac yn cynhyrchu trydan. Cafodd y felin ei hadfer yn y 1980au ac erbyn hyn mae'n gartref i ystlumod lleiaf.

Pentre water mill is over 200 years old. Over the years it has powered machinery that ground corn into flour, cut timber and generated electricity. The mill was restored in the 1980s and is now home to protected pipistrelle bats.

Mae croeso i bobl ystyriol ddod â'u cŵn i Loggerheads.

- Cadwch eich cŵn o dan reolaeth ofalus yn y Parc.
- I'r bag ac i'r bin!
- Cadwch eich ci ar dennyn o gwmpas y Gerddi Te.

Loggerheads welcomes considerate dog walkers.

- Keep dogs under close control in the park.
- Bag it & bin it!
- Please keep your dog on a lead around the Tea Gardens.